

## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at sawl un sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y pythefnos ddiwethaf. Cafodd Gwenan Roberts ac Eiddwen Jones (Llansannan) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, ac fe dreuliodd Rhiannon Evans (Llansannan) ychydig nosweithiau yno hefyd. Cofiw'n hefyd am Medwyn Evans (Tanyfron) fu yn Ysbyty Gobowen yn cael llawdriniaeth. Dymunwn wellhad buan iawn iddynt ac i eraill o'r Ofalaeth sydd wedi cael anaf neu driniaethau amrywiol yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn. Cyflwynwn hwy yn ein gweddiâu i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau ac i brofi o ddaioni Duw.
- Cofiw'n hefyd y rhai sy'n derbyn triniaeth tymor hir a'r rhai hynny sy'n hiraethu am anwyliaid y Nadolig hwn. Gweddiwn y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.

## Rhifyn Nesaf

Bydd y rhifyn nesaf o **Llais Bro Aled** yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 4ydd**.

## I ddod

- **GWASANAETH DECHRAU'R FLWYDDYN** yng Nghapel Llanefydd, nos Fercher, Ionawr 7fed am 7.00. Pregethir gan y Parch. Dafydd Rees Roberts.
- **CYFARFOD CYMDEITHAS Y BEIBL** yn Ffestri Llansannan am 7.30 nos Fawrth, Ionawr 6ed yng nghwmni Nerys Pritchard, Rheolwraig Canolfan Mari Jones, Llanycil.
- **OEDFA DECHRAU'R FLWYDDYN** yn Llansannan, nos Iau, Ionawr 8fed am 7.30 gyda Steffan Morris yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DECHRAU'R FLWYDDYN** yng Nghapel Saron, nos Iau, Ionawr 8fed am 7.00 gyda'r Parch. Eifion Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **DIWRNOD DYNION** yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Ionawr 17eg.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 30ain–Chwefror 1af.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 6ed–8fed.
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan dathlu'r atgyfodiad – yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed–10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae taflenni gwybodaeth ar gael yn yr Ofalaeth – os nad oes rhai ar gael yn eich eglwys chi, gofynnwch i Mair am rai, os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd gael yr wybodaeth a ffurflen archebu ar y wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org).

## Darlleniad Nesaf

Mathew 2:13-15 (BCND tud.2 / BCN: tud.2)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21<sup>ain</sup> Rhagfyr 2014 (BCND tud.99 / BCN: tud.91)

## Darlleniad y Dydd

Ioan 1: 1-14

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw ar drothwy'r Nadolig. Gobeithio y cewch gyfle i ddod i un o'r oedfaon sydd yn y Fro dros Ŵyl y Nadolig ac y cewch gyfle i gyd-addoli hefo ni yn ystod y cyfnod prysur yma. Mae nifer o wasanaethau a digwyddiadau wedi eu paratoi ar eich cyfer, a braf fyddai cael eich cwmni. Roedd hi'n braf iawn gweld cynifer wedi dod nos Sul i'r gwasanaeth Carolau a Phlygain. Diolch i bawb a fu'n paratoi ac a gyfrannodd ym mhob ryw fodd. Cawsom fendith ddofn wrth ystyried ymateb y doethion, y bugeiliaid a Herod yn eu tro i'r newyddion am eni brenin newydd, yr Arglwydd Iesu. Ymateb yn debyg i ba un a wnawn ni? Mae Herod yn gwrthod yn lân a derbyn brenhiniaeth Iesu ac yn ei erlid, ond mae'r bugeiliaid yn rhedeg i weld yr un bychan mewn cadachau, a'r doethion yn plygu mewn addoliad. Nid canu emynau a charolau yn unig yw addoliad, ond rhoi ein hunain o dan Arglwyddiaeth Iesu, ac yn ateb i'r cwestiwn 'Beth a roddaf iddo?' ateb "rhoi fy mywyd oll". (Cff. 466)

Fe wnes i fwynhau gwranddo ar Twm Morys ar raglen Sian Cothi fore Llun. Roedd yn siarad am y garol hynaf sydd gennym ar gof a chadw, sef carol o ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg o waith Madog ap Gwallter, mynach o Lanfihangel Glyn Myfyr. Enw'r garol ydi "Mab a'n rhodded", ac yn y garol mae'r geiriau sy'n disgrifio Iesu fel "Cawr mawr bychan .... Cryf, cadarn, gwan .... Iesu yw hwn a dderbyniwn yn ben rhiain, .... uchel, isel ... Immanuel ... mêl feddyliau".

Hyfryd ac annisgwyl yw'r ddau air olaf yma, 'mêl feddyliau'. Y mae meddwl ac ystyried y geni yn brofiad melys iawn ac ni allaf lai na dymuno hynny i chwi i gyd dros yr Ŵyl o ganol eich amrywiol brofiadau. Hyfryd fyddai clywed ddechrau'r flwyddyn fod yr Ysbryd wedi rhoi i chi lawnder rhyfeddod yr hyn a ddigwyddodd ym Methlehem a bod y profiad wedi bod yn fêl i'ch enaid ac yn nerth i'ch camrau.

Nadolig Llawn i chi i gyd felly ar ran Rhodri a Mair a finnu, a'n teuluoedd, a diolch i chi am eich cymdeithas yn yr Arglwydd dros y flwyddyn ac am eich holl ymroddiad i'r Un a'n carodd gymaint!

*Aneurin*

## Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma  
lau  
Sul nesaf,  
Rhagfyr  
28<sup>ain</sup>
- Ni fydd **OEDFA I'R FRO** heno.
  - OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Meiriadog **am 9.30**.
  - OEDFA I'R FRO** yng Nghapel Saron **am 11.00** gydag Eryl Davies yn arwain ac Aneurin yn pregethu. Wedi'r oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno gael cinio yn y Festri, cyn mynd ar daith gerdded yn yr ardal, os bydd y tywydd yn caniatáu. Dewch â phicnic hefo chi (bydd paned wedi ei pharatoi ar eich cyfer – diolch i ferched Capel Saron) ac esgidiau addas i gerdded. (Bydd rhan o'r daith ar dir glas.)
- Nos Lun,  
Rhagfyr  
29<sup>ain</sup>  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>
- SWPER NADOLIG Y GRWPIAU ADNABOD / OEDFA'R FRO** yn Festri Llansannan am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 22ain** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
  - OEDFA I'R FRO** yn Llansannan am 6.00.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma  
Llun  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00 a bydd Parti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.
- Parti Nadolig Ysgol Sul/ Cymdeithas Cefn Meiriadog am 6.30.
- Bydd Mr Joseff Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma  
lau  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>
- Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion am 10.00. Yna, am 2.00, cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant gydag Aneurin yn rhoi anerchiad, a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Festri.
- Cofiwch am y Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Bethania am 7.00 y bore.
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>
- Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd paned a mins pei i ddilyn.
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Saron am 11.00. Bydd y Parti Nadolig ar ôl y gwasanaeth a disgwylir y bydd Siôn Corn yn ymweld. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yno yn y prynhawn a bydd te wedi ei baratoi i ddilyn y gwasanaeth.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Henllan a Groes

- Sul yma  
Sul nesaf  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>
- Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Festri.
- Bydd Gwasanaeth Carolau Undebol yn Eglwys Henllan am 11.00.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma  
Mercher  
**2015**  
Ionawr 4<sup>ydd</sup>  
\*SYLWER\*
- Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.30 a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn yr Eglwys am 6.30. Yn yr un modd, cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn.
- Plygain noswyl y Nadolig dan arweiniad Aneurin yng Nghapel Llanefydd am 7.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00.
- Bydd y Clwb Cinio nesaf yng Nghefn Berain ar Ionawr 8fed am 12.00.

### Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- erbyn 9.00 nos Fawrth, Rhagfyr 30ain fan bellaf.**

**“Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr,  
yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.” (Luc 2:11)**